# CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Teitl yr eitem:** | *Mabwysiadu Cynllun Gweithredu Cyngor Gwynedd ar gyfer Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio 2026-2028* |
| **Aelod Cabinet:** | *Cyng. Nia Jeffreys* |
| **Swyddog perthnasol:** | *Dylan Owen, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol* |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 15 Medi 2026 |

## 1. Penderfyniad a Geisir:

1.1 Gofynnir i'r Cabinet gymeradwyo Cynllun Gweithredu Cyngor Gwynedd ar gyfer Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio, sy'n amlinellu'r gweithgareddau fydd yn cael eu cyflawni ar draws adrannau'r Cyngor fel rhan o ddull corfforaethol i gefnogi amcanion Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio Llywodraeth Cymru (Atodiad 1).

## 2. Beth yw'r rheswm pam fod angen i'r Cabinet wneud y penderfyniad:

2.1 Ym mis Rhagfyr 2025, cyflwynodd yr Arweinydd Rybudd o Gynnig i'r Cyngor Llawn yn galw ar Gyngor Gwynedd i gefnogi egwyddorion y Strategaeth Cenedlaethol Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio a datblygu trefniadau lleol i ymateb i'r heriau hyn. Nododd y cynnig fod atal hunanladdiad yn gyfrifoldeb ar y cyd ac y dylai'r Cyngor chwarae rhan flaenllaw wrth gydweithio â phartneriaid, lleihau stigma a chefnogi unigolion a chymunedau.

2.2 Adlewyrcha'r cynllun gweithredu corfforaethol ymrwymiad Cyngor Gwynedd i weithredu ar y cyd ar draws gwasanaethau er mwyn cryfhau atal, ymwybyddiaeth, cefnogaeth ac ymyrraeth gynnar mewn perthynas â hunanladdiad a hunan-niweidio

## 3. Cefndir

3.1 Mae hunanladdiad a hunan-niweidio yn faterion iechyd cyhoeddus pwysig sy'n effeithio ar unigolion, teuluoedd a chymunedau ledled Cymru.

3.2 Yn 2024, cyfradd hunanladdiad cofrestredig Cymru oedd 15.7 ym mhob 100,000 o'r boblogaeth, cynnydd o gymharu â 14.0 ym mhob 100,000 yn 2023. Mae tystiolaeth hefyd yn dangos bod dynion yn cyfrif am 76% o farwolaethau drwy hunanladdiad yng Nghymru, gyda dynion rhwng 30 a 44 oed ymysg y grwpiau sydd fwyaf mewn perygl.

3.3 Mae nifer o ffactorau cymdeithasol ac economaidd yn gysylltiedig â risg uwch o hunanladdiad, gan gynnwys tlodi, diweithdra, problemau iechyd meddwl a chorfforol, unigedd, profedigaeth, camdriniaeth a chamddefnyddio sylweddau.

3.4 Ym mis Ebrill 2025, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru *Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio Cymru 2025-2035*, sy'n nodi'r weledigaeth genedlaethol ar gyfer lleihau cyfraddau hunanladdiad ac ymgais i gyflawni hunanladdiad, gwella canlyniadau i bobl sy'n cael cymorth ar gyfer hunan-niweidio, a gwella'r cymorth sydd ar gael i'r rhai yr effeithir arnynt gan hunanladdiad a hunan-niweidio.

3.5 Pwysleisia'r strategaeth mai "busnes pawb" yw atal hunanladdiad a hunan-niweidio, ac y dylai sefydliadau gydweithio i adnabod risgiau'n gynnar, lleihau stigma, gwella mynediad at gymorth a sicrhau bod gwasanaethau'n ymateb mewn ffordd dosturiol, deg a hygyrch.

3.6 Er mwyn cyflawni'r weledigaeth hon, mae'r strategaeth wedi'i strwythuro o amgylch chwe amcan allweddol: Gwrando a Dysgu, Atal, Grymuso, Cefnogi, Galluogi ac Ymateb.

3.7 Yng ngoleuni'r blaenoriaethau cenedlaethol hyn, ac yn sgil y Rhybudd o Gynnig a gyflwynwyd i'r Cyngor Llawn ym mis Rhagfyr 2025, mae Cyngor Gwynedd wedi adolygu'r gwaith sydd eisoes yn digwydd ar draws ei wasanaethau ac wedi datblygu dull corfforaethol mwy cyd-gysylltiedig o atal hunanladdiad a hunan-niweidio.

3.8 Mae'r Cynllun Gweithredu a gyflwynir yn atodiad 2 yn dwyn ynghyd gyfraniad adrannau'r Cyngor, gan gynnwys Oedolion, Addysg, Diogelwch Cymunedol, Adnoddau Dynol a gwasanaethau eraill, er mwyn adeiladu ar waith presennol a sicrhau ymateb cydlynol i'r heriau a nodir yn y strategaeth genedlaethol.

3.9 Gweler fod y gweithredoedd yn cynnwys sawl elfen gan gynnwys:

- Cynnal sesiynau ymwybyddiaeth i uwch reolwyr ac aelodau etholedig.
- Datblygu a hyrwyddo hyfforddiant i staff megis Gofyn a Gweithredu, Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl ac ymwybyddiaeth o hunanladdiad.
- Ystyried gwneud Modiwl Ymwybyddiaeth Hunanladdiad Cymru yn rhan safonol o hyfforddiant staff.
- Codi ymwybyddiaeth ymysg trigolion a grwpiau cymunedol o'r cymorth sydd ar gael.
- Datblygu trefniadau cymorth i staff neu wasanaethau sy'n cael eu heffeithio gan hunanladdiad.

3.10 Elfen pwysig o'r gwaith yw atal hunanladdiad a hunan-niweidio ymhlith plant a phobl ifanc, ac, o ganlyniad mae adroddiad pellach (**atodiad 3**) yn amlinellu'r trefniadau sydd ar waith mewn ysgolion Gwynedd, gan egluro'r rôl allweddol sydd gan Bersonau Diogelu

Dynodedig, y trefniadau ar gyfer adnabod pryderon yn gynnar, cofnodi a chyfeirio at gymorth, a'r cydweithio sy'n digwydd gyda CAMHS, gwasanaethau cwnsela ysgolion, Seicolegwyr Addysgol, nyrsys ysgol a gwasanaethau cymdeithasol.

3.11 Cryfha’r holl waith drwy gydweithio rhanbarthol ar draws Gogledd Cymru, gyda Chyngor Gwynedd yn cymryd rhan yn y Fforwm Hunanladdiad a Hunan-niweidio Gogledd Cymru, yn cyfrannu at waith partneriaethau diogelu ac iechyd meddwl, ac yn cydweithio gyda'r Arweinydd Rhanbarthol Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio i sicrhau bod gweithgareddau lleol yn cyd-fynd â blaenoriaethau cenedlaethol a rhanbarthol

3.12 Er bod effaith uniongyrchol gweithgareddau atal hunanladdiad yn anodd ei fesur, bydd y Cyngor yn monitro cynnydd yn erbyn y camau gweithredu a nodir yn y cynllun. Bydd hyn yn helpu i asesu a yw'r Cyngor yn cryfhau ei allu i atal, adnabod ac ymateb i bryderon sy'n ymwneud â hunanladdiad a hunan-niweidio.

**4. Camau nesaf**

4.1 Bydd y Cyngor yn parhau i weithredu'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio 2026-2028 drwy gydweithio ag adrannau mewnol a phartneriaid rhanbarthol a chenedlaethol, gan sicrhau bod gweithgareddau Gwynedd yn cyd-fynd â blaenoriaethau Cymru ac yn adeiladu ar y gwaith sydd eisoes yn digwydd ar draws gwasanaethau'r Cyngor, ysgolion a gwasanaethau partner.

4.2 Bydd cynnydd yn erbyn y cynllun yn cael ei fonitro'n rheolaidd drwy’r adrannau perthnasol a'r Panel Diogelu Strategol er mwyn gwerthuso'r cynnydd a wneir, nodi meysydd ar gyfer datblygu pellach, a sicrhau bod y Cyngor yn parhau i gryfhau ei ddull corfforaethol o atal hunanladdiad a hunan-niweidio.

**5. Sylwadau Swyddogion Statudol.**

5.1 **Prif Swyddog Cyllid**

Rwyf yn cefnogi’n penderfyniad a geisir; nid oes gennyf sylwadau pellach o safbwynt priodoldeb ariannol.

5.2 **Swyddog Monitro**

Rwy’n fodlon gyda priodoldeb y penderfyniad a geisir

**Rhestr Atodiadau:**

1. Dealltwriaeth: Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio Cymru

2. Cynllun Atal Hunanladdiad ac Hunan-niweidio Cyngor Gwynedd

3. Hunan-niweidio a Meddyliau am Hunanladdiad mewn Ysgolion

**Rhestr Dogfennau Cefndir:**

Dolen at Rhybydd o Gynnig yr Arweinydd Mis Rhagfyr 2025: Agenda item - RHYBUDDION O GYNNIG